O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1642 (Cy. 211)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494/A550 (Cyfnewidfa Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

Gwnaed *25 Mehefin 2012*

Yn dod i rym *5 Gorffennaf 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494/A550) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel y "gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith ffyrdd y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Gorffennaf 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494/A550 (Cyfnewidfa Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 22:00 o'r gloch ar 5 Gorffennaf 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o gefnffordd yr A494/A550